

Fy llawenydd i – eich llawenydd chi

“Yr wyf wedi dweud hyn wrthyh er mwyn i’w llawenydd i fod yn och, ac i’ch llawenydd chwi fod yn gyflawn.” (adn. 11)

Beth am ddarlennu Ioan 15:1–17 ac yna myfyrio

Y rhodd y byddwn yn ei hystyried heddiw ydy llawenydd – a dyma i chi rodd werthfawr. Nid ar hap mae ein Harglwydd yn sôn am lawenydd yng nghyd-destun cariad, oherwydd mae llawenydd yn dod yn sgil cariad. Dywedodd Thomas Aquinas: “Nid oes neb yn wirioneddol lawen oni bai eu bod yn byw mewn cariad.” Os awn ati i geisio llawenydd yn gyntaf, ni fyddwn yn llwyddo, ond pan fyddwn yn caniatáu i gariad Duw lenwi ein calonnau, yna fydd dim angen i ni chwilio am lawenydd; fe ddaw i’n ceisio ni. Mae’n siŵr o fod yn wir nad oes yna unrhyw fod dynol ar y blaned hon erioed wedi profi llawenydd yn yr un ffordd ag Iesu. Roedd ei galon ef, heb ei halogi â phechod, yn gallu blasu’r llawenydd o fod mewn cymundeb perffaith â Duw ei Dad, a dyna’r llawenydd roedd am ei roi i’w ddisgyblion.

Mae yna ryw beth digon diddorol yn y testun heddiw. Mae Iesu’n sôn am ‘fy llawenydd i’ ac ‘eich llawenydd chi’, ac yn dweud y bydd ein llawenydd ni yn gyflawn pan fydd ei lawenydd ef ynom. Gellir aralleirio hyn fel yma: “Dw i wedi dweud hyn wrthyh yn fwiadol: er mwyn i’w llawenydd i fod yn llawenydd i chi, ac i’ch llawenydd chi fod yn gwbl aeddfed.” Allwn ni ddim gyraedd pinael ei botensial nes bod llawenydd Crist yn dod i drigo ynom. Allwn ni ddim cymryd ei lawenydd ef heb sylweddoli bod ein llawenydd ninnau’n gyflawn. Dyna pam y gallwn ddweud, heb ofni unrhyw wrthwynebiad llwyddiannus, na all y rhai sydd heb ddod i adnabod Crist brofi llawenydd yn y ffordd y bwriadwyd iddynt wneud hynny.

Na foed i neb amau hyn: mi gawsom ni ein llunio yn y cychwyn cyntaf un ar gyfer llawenydd sydd y tu hwnt i ddychymyg. Ond mae pechod wedi difrodi’n heneidiau, a dydi’r llawenydd a brofw’n yn y byd o’n cwmpas yn ddim o’i gymharu â’r llawenydd a brofw’n yn ein heneidiau pan fydd llawenydd Crist yn dod i drigo ynom.

Beth am fynd ymlaen i ddarlennu:

Neh. 8: 9–12; Seff. 3: 14–17; Gal. 5: 22–26; Philem. 3–7

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae Nehemeia yn annog y bobl?
2. Am beth y diolchodd Paul i Philemon?

Gweddi

O Dad, helpa fi i dderbyn fy ngenedigaeth-fraint o lawenydd ac i fyw y bywyd y bwriadwyd fi ar ei gyfer. Mi wnest ti fy llunio i ar gyfer rhywbeth mwy llawen na’r hyn y gall y byd o’w cwmpas ei roi. Dw i am i lawenydd drigo ynom, a minnau mewn llawenydd. Yn enw Iesu. Amen.